| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **6 MEHEFIN 2017** |
| TEITL | **BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO AMLINELLIAD O RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AM 2017/18** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o raglen waith y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod, hyd at Mai 2018, sydd wedi ei gynnwys yn yr Atodiad.

1.2 Mae hyn yn gyfle i'r aelodau ystyried yr eitemau sydd i'w trafod yn ystod y cyfnod yma er mwyn cyflawni rôl y Pwyllgor o fewn Fframwaith Lywodraethu'r Cyngor, a rhoi cyfle i'r aelodau baratoi fel bo'r angen.

1.3 Bydd yr aelodau hefyd yn ymwybodol fod gan y Pwyllgor swyddogaethau newydd yn sgil addasiadau i'r Cyfansoddiad a benderfynwyd gan y Cyngor ar 2 Mawrth 2017 a 18 Mai 2017, sef rôl adolygu a chraffu ar faterion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor megis strategaethau corfforaethol, partneriaethau, ymgysylltu, trawsnewid busnes, trefniadau effeithlonrwydd a'r gweithlu. Mae hyn yn ychwanegol i'r rôl statudol oedd eisoes ganddo o arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt.

1.4 Er mwyn diwallu'r cyfrifoldebau craffu yn effeithiol, bydd yr union faterion sydd i'w craffu yn cael eu hadnabod mewn trafodaethau ymysg aelodau'r Pwyllgor, gyda chefnogaeth Swyddogion Craffu, yn ystod y flwyddyn.

1.5 Wrth gwrs, gall union ffurf y rhaglenni pwyllgor fod yn wahanol erbyn y cyfarfodydd, yn ddibynnol ar amgylchiadau ar y pryd. Gall hyn gynnwys materion sydd wedi codi mewn gwaith archwilio, neu'r angen i ystyried materion penodol yn y maes llywodraethu ehangach.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried cynnwys y blaen raglen, holi'r swyddogion am yr eitemau fel bo'r angen, cynnig sylwadau a nodi er gwybodaeth.